**Cwricwlwm**

Yn Ysgol Gymraeg Llundain rydym yn dilyn y Cwricwlwm i Gymru (2022). Gweler adroddiad yr Athro Graham Donaldson Dyfodol Llwyddiannus sy’n amlinellu rhagoriaethau y cwricwlwm hwn. Mae'r term 'cwricwlwm' yn cyfeirio at yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu sydd wedi'u cynllunio ar gyfer ein disgyblion.

**Bwriad**

Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio i ddarparu addysg ddwyieithog sy'n eang a chytbwys ac sy'n **diwallu anghenion pob plentyn**. Mae'n darparu cyfleoedd i blant ddatblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol ac abl, yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, dinasyddion moesegol a gwybodus ac unigolion iach a hyderus sy'n gwybod sut i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymuned leol, i’r gymuned Gymreig a'r gymdeithas ehangach.

Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo creadigrwydd ac arloesedd, meddwl beirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol a sgiliau cynllunio a threfnu. Mae'r cwricwlwm yn dysgu plant i ddathlu amrywiaeth a pharchu gwahaniaethau, i fod yn ymwybodol o'u hawliau a hawliau pobl eraill yn ogystal â chefnogi eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, gan sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer bywyd yn y Brydain fodern.

**Gweithrediad**

Gweithredir Cwricwlwm i Gymru ynghyd á gofynion statudol fframwaith Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar a'r Safonau Ysgolion Annibynnol i ddarparu addysg a phrofiadau cynhwysfawr ac ysbrydoledig.

Mae'r cwricwlwm yn **drawsgwricwlaidd ac arloesol**, ac yn meithrin chwilfrydedd a diddordeb ymhob plentyn yn ogystal a datblygu eu sgiliau **llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol**. Mae llais y plentyn yn bwysig ac ar ddechrau testun newydd defnyddir hyn i sicrhau bod y plant yn cael cyfrannu at yr hyn a addysgir.

Mae'r cwricwlwm yn **herio pob un dysgwr** ac i’'r disgyblion hynny sy'n barod i fwy o her, darperir tasgau mwy uchelgeisiol. Mae'r plant sydd ei angen, yn cael cymorth wedi'i dargedu sy’n gwreiddio sgiliau mewn arddull sy'n gweddu orau i'w hanghenion unigol.

Cynigir amserlen amrywiol o **weithgareddau allgyrsiol** gan yr ysgol, gyda darpariaeth gofal cofleidiol a chlybiau sy'n cefnogi ac yn ategu bwriad cwricwlwm yr ysgol. Mae'r amserlen allgyrsiol yn cynnig cyfle i blant ddatblygu sgiliau arbenigol, fel canu neu chwarae piano, tra hefyd yn ymestyn eu hamrywiaeth o brofiadau, megis perfformio ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd.

Mae'r ysgol yn **gwerthuso ac adolygu y cwricwlwm** yn barhaus ac mae dathlu arfer da yn cyfrannu at yr ymrwymiad parhaus i esblygu a gwella ymhellach. Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant a'r cyfle i barhau i ddatblygu eu gwybodaeth am feysydd dysgu a phrofiad a sgiliau trawsgwricwlaidd, fel y gallant gefnogi datblygiad y cwricwlwm ledled yr ysgol.

**Effaith**

Mae effaith Cwricwlwm Cymru yn bell gyrhaeddol ac yn rhoi **sylfaen academaidd gref** i'r plant yn ogystal â chynnig cyfleoedd iddynt **ddatblygu sgiliau cymdeithasol** yn y dosbarth, drwy chwarae a thu hwnt i'r ysgol. Mae cynllun y cwricwlwm hwn yn sicrhau y gellir diwallu anghenion unigol a grwpiau bach o blant o fewn amgylchedd addysgu o ansawdd uchel, wedi'i ategu, lle bo hynny'n angenrheidiol. gan ymyraethau wedi'u targedu.

Mae mwynhau'r cwricwlwm yn hybu **cynnydd, hyder ac ymddygiad cadarnhaol.** Mae plant yn teimlo'n ddiogel i roi cynnig ar bethau newydd. Mae ymweliadau o ansawdd uchel ac ymwelwyr â'r ysgol yn cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer ysgrifennu i bwrpas. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i rannu eu dysgu gyda'i gilydd, eu rhieni a'u gofalwyr a dysgwyr eraill mewn arddangosfeydd, perfformiadau a chystadleuthau yn yr ysgol a thu hwnt.